EUSCS01

Gwaith mewn mannau cyfyng risg isel

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio mewn mannau cyfyng risg isel. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig.

Gallai'r risgiau arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd. Nodweddion mannau cyfyng risg isel:

- lle risg isel i fynd i mewn, o bosibl, a mynediad syml a dirwystr
- ysgolion neu risiau sefydlog
- awyriad mecanyddol neu naturiol da
- heb unrhyw risg debygol o lifogydd
- tebygolrwydd isel o risg y gellir ei rhagweld yn rhesymol wrth fynd i mewn neu wrth weithio
- gallai gynnwys gweithio ar eich pen eich neu'n rhan o dîm.

Mae gweithio mewn unrhyw fan cyfyng yn golygu gweithio yn unol â system waith y cytunwyd arni sy'n seiliedig ar asesiad risg. Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi i fynd i mewn i fannau cyfyng risg isel a gweithio ynddynt yn ddiogel, mynd i mewn i fannau cyfyng a'u gadael yn ddiogel, defnyddio cyfarpar ac offer yn unol â manylion y gwneuthurwyr, dilyn gweithdrefnau a gweithio'n ddiogel a mynd i'r afael ag argyfyngau. Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio mewn man cyfyng risg isel.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwirio nad oes ffyrdd amgen hyfyw i weithwyr fynd i mewn cyn penderfynu mynd i mewn i fannau cyfyng
2. cadarnhau bod unrhyw asesiadau risg sy'n bodoli eisoes yn gywir cyn dechrau gweithio
3. cynnal asesiadau risg deinamig pan fo angen ar adegau priodol yn ystod y gwaith
4. ceisio cyngor gan bobl briodol pan mae'r amodau o dan sylw yn wahanol i'r rhai a nodwyd mewn asesiadau risg
5. defnyddio dulliau cyfathrebu llafar sy'n addas ar gyfer tasgau a mannau cyfyng risg isel
6. defnyddio gweithdrefnau a dulliau cyfathrebu sy'n briodol wrth weithio ar eich pen eich neu'n rhan o dîm
7. gwneud yn siŵr bod yr holl gyfarpar ac offer yn addas, yn gweithio'n dda ac yn barod i'w defnyddio cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
8. dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd mewn cyflwr da
9. cael caniatâd i fynd i mewn i fan lle mae pobl ddynodedig yn goruchwylio gwaith
10. gosod, profi a chofnodi canlyniadau cyfarpar monitro priodol cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
11. cynnal parthau diogelwch a rheoli mynediad a symudiad pobl a cherbydau o amgylch mynediadau mewn sefyllfaoedd pan mae angen cadw pobl draw
12. gwneud yn siŵr bod unrhyw ysgolion neu risiau sefydlog mewn cyflwr diogel cyn eu defnyddio
13. mynd i mewn i fannau cyfyng a'u gadael yn unol â gweithdrefnau ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng risg isel
14. defnyddio dulliau penodedig er mwyn mynd â chyfarpar ac offer i mewn i fannau cyfyng
15. dilyn gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun pan mae hynny'n cael ei ganiatáu
16. datrys unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â mynd i mewn i fannau cyfyng, eu gadael neu weithio ynddynt gyda phobl berthnasol
17. dilyn gweithdrefnau gweithio diogel cyflogwyr bob amser
18. defnyddio cyfarpar yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr bob amser

19. monitro amodau a lefelau risg mewn mannau cyfyng ar adegau y cytunir arnynt
20. cymryd camau priodol i reoli pob risg a chywiro unrhyw weithgaredd, cyfarpar ac amodau amgylcheddol anniogel ar unwaith
21. monitro gwybodaeth o gyfarpar monitro ac ymateb iddi yn unol â gweithdrefnau
22. dechrau gweithdrefnau gadael mewn argyfwng ar unwaith mewn sefyllfaoedd peryglus
23. cofnodi digwyddiadau argyfwng a'u hamgylchiadau a rhoi gwybod amdanynt yn unol â gweithdrefnau
24. cwblhau'r holl ddogfennau ac adroddiadau cyn eu ffeilio mewn mannau dynodedig neu eu rhoi i bobl berthnasol
25. sicrhau bod cyfarpar ac offer yn cael eu hadfer o fannau cyfyng pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau
26. cau mannau gwaith a'u gwneud yn ddiogel pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion a nodweddion diffiniol mannau cyfyng, iechyd a diogelwch, a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. mathau o fannau a allai fynd yn gyfyng gan fod risg a nodwyd yno
4. risgiau a nodwyd a allai greu man cyfyng
5. ymwybyddiaeth o sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
6. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ynghylch sut i ddefnyddio cyfarpar
7. y rolau wrth weithio'n rhan o dîm
8. y rolau a'r cyfrifoldebau wrth fynd i'r afael ag argyfyngau
9. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau, digwyddiadau a damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, gan gynnwys y wybodaeth allweddol i'w rhoi am eich lleoliad
10. cynlluniau dosbarthu mannau cyfyng
11. sut i nodi mannau cyfyng risg isel
12. y pwysigrwydd o asesu cyflwr ysgolion a grisiau sefydlog a'r dulliau o wneud hynny
13. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng risg isel
14. pam mae'n bwysig bod yn effro i risgiau a pheryglon posibl, sut i gynnal asesiadau risg deinamig a pha mor briodol yw mathau o asesiadau risg gan gynnwys rhai cyffredinol a rhai ar gyfer safleoedd penodol
15. y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio sy'n briodol i ddosbarth y man cyfyng ac amodau lleol
16. sut i leihau risgiau fel eu bod ar lefel dderbyniol i allu gwneud y gwaith gan gynnwys ynysu gwasanaethau sy'n gysylltiedig, a chadw llygad ar ddarlleniadau anadl ar ei orau ar gyfarpar monitro.
17. pwysigrwydd a chyfyngiadau mathau gwahanol o gyfarpar monitro a sut i wneud yn siŵr eu bod wedi'u gwefru
18. ffyrdd o fonitro amodau a gweithgaredd gwaith
19. pam mae'n bwysig datrys problemau am waith mewn mannau cyfyng ar unwaith a sut i gyfathrebu â phobl o sefydliadau eraill
20. y rhagofalon i'w cymryd wrth weithio ar eich pen eich hun gan gynnwys defnyddio asesiad risg deinamig wrth i amodau newid a chyfathrebu am amodau anniogel

21. y dulliau cyfathrebu ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl eraill wrth weithio ar eich pen eich hun ac mewn sefyllfaoedd argyfwng, gan gynnwys y perygl sy'n gysylltiedig â defnyddio ffonau symudol pan mae nwy ffrwydrol wedi'i ganfod
22. y gweithdrefnau ar gyfer paratoi, gwirio a defnyddio offer a chyfarpar
23. y systemau adrodd ar gyfer gweithgareddau gwaith arferol a datrys problemau

Gwaith mewn mannau cyfyng risg isel

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS01
Galwedigaethau perthnasol	Technolegau peirianegol a gweithgynhyrchu; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig; Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig Eraill
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng; Treulio Anaerobig
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg isel; mynd i mewn; mynd allan; risg a nodwyd; monitro amodau; argyfyngau